**Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr**
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)

CS/NG

Dydd Iau, 20 Mai 2021

Maureen Potter 01352 702322
maureen.potter@flintshire.gov.uk

At: Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio

Annwyl Syr / Fadam

**RHYBUDD O GYFARFOD ANGHYSBELL**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**DYDD MERCHER, 26AIN MAI, 2021** am **1.00 PM**

Yn ddiffuant,

Robert Robins
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

Sylwch: Bydd hwn yn gyfarfod dros y we.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar https://flintshire.publici.tv/core/portal/home

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd ar 01352 702345.

**<u>R H A G L E N</u>**

1 **PENODI IS-GADEIRYDD**

2 **YMDDIHEURIADAU**

3 **DATGAN CYSYLLTIAD**

4 **SYLWADAU HWYR**

5 **COFNODION** (Tudalennau 5 - 8)

I gadarnhau, fel cofnod cywir gofnodion y cyfarfod ar 31 Mawrth 2021.

6 **EITEMAU I'W GOHIRIO**

7 **ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI)**

Mae adroddiad y Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd ac Economi) yn amgaeedig.

**ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI) AR GYFER Y PYLLGOR CYNLLUNIO 26 MAI 2021**

| Rhif yr eitem | Cyfeirnod y Ffeil | DISGRIFIAD |
|---|---|---|
| **Ceisiadau sy'n cael eu hadrodd er penderfyniad (A= adroddiad er cymeradwyaeth, R= adroddiad er gwrthodiad)** | | |
| **7.1** | **061790** | 061790 - Cais llawn - Datblygiad preswyl arfaethedig ar gyfer 25 annedd fforddiadwy, man agored cyhoeddus gyda chysylltiadau newydd i gerddwyr, tirlunio, mynediad i'r briffordd, gorsaf bwmpio a chynlluniau ar gyfer enillion bioamrywiaeth net ac arafu d?r wyneb ar dir wrth ymyl 150 Mancot Lane, Mancot (Tudalennau 9 - 42) |
| **7.2** | **052236** | 052236 - Aminellol cynllunio - Cais Amlinellol ar gyfer datblygiad preswyl a gwaith cysylltiedig yn Atlas Yard, Ffordd Corwen, Pontybodkin (Tudalennau 43 - 58) |
| **7.3** | **062192** | 062192 - A - Cais llawn - Estyniadau ac addasiadau i greu lolfa fwy a chyntedd/ardal fynedfa ynghyd â 2 ystafell wely en-suite ar y llawr gwaelod a 6 ystafell wely en-suite ar y llawr cyntaf yn The Crooked Horn, Bryn-Sannan, Brynford, Treffynnon (Tudalennau 59 - 76) |

***Sylwch y gall fod 10 munud o egwyl yn y cyfarfod hwn os yw’n para fwy na dwy awr***

**Nodyn Gweithdrefnol ar redeg cyfarfodydd**

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfodydd ac yn cyflwyno eu hunain.

Bydd nifer o Gynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd. Bydd swyddogion hefyd yn mynychu cyfarfodydd i gyflwyno adroddiadau, gyda swyddogion Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu a chynnal y cyfarfodydd.

Gofynnir i bawb sy'n mynychu i sicrhau bod eu ffonau symudol wedi diffodd a bod unrhyw sain gefndirol yn cael ei gadw mor dawel â phosib.

Dylai'r holl feicroffonau gael eu rhoi "ar miwt" yn ystod y cyfarfod a dim ond pan fyddwch yn cael eich gwahodd i siarad gan y Cadeirydd y dylid eu rhoi ymlaen. Pan fydd gwahoddedigion wedi gorffen siarad dylen nhw roi eu hunain yn ôl "ar miwt".

Er mwyn mynegi eu bod nhw eisiau siarad bydd Cynghorwyr yn defnyddio'r cyfleuster 'chat' neu yn defnyddio'r swyddogaeth 'raise hand' sy'n dangos eicon codi llaw electronig. Mae'r swyddogaeth 'chat' hefyd yn gallu cael ei ddefnyddio i ofyn cwestiynau, i wneud sylwadau perthnasol ac yn gyfle i'r swyddog gynghori neu ddiweddaru'r cynghorwyr.

Bydd y Cadeirydd yn galw ar y siaradwyr, gan gyfeirio at aelod etholedig fel 'Cynghorydd' a swyddogion yn ôl eu teitl swydd h.y. Prif Weithredwr neu enw. O bryd i'w gilydd mae'r swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn egluro pwyntiau gweithdrefnol neu'n awgrymu geiriad arall ar gyfer cynigion er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor.

Os, a phan y cynhelir pleidlais, mi fydd y Cadeirydd yn egluro mai dim ond y rheiny sy'n gwrthwynebu'r cynnig/cynigion, neu sy'n dymuno ymatal a fydd angen mynegi hynny drwy ddefnyddio'r swyddogaeth 'chat'. Bydd y swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn mynegi os bydd y cynigion yn cael eu derbyn.

Os oes angen pleidlais fwy ffurfiol, bydd hynny yn ôl galwad enwau – lle gofynnir i bob Cynghorydd yn ei dro (yn nhrefn yr wyddor) sut mae ef / hi yn dymuno pleidleisio.

Yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Cynllunio a Chyngor Sir mae amseroedd siaradwyr yn gyfyngedig. Bydd cloch yn cael ei chanu i roi gwybod i'r siaradwyr bod ganddyn nhw funud ar ôl.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar https://flintshire.public-i.tv/core/portal/home